# Dyfodol Dosbarthu Teledu

## Cais am Dystiolaeth

Cyhoeddwyd ar 17 Hydref 2023
Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 12 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3
2. Cyd-destun y gwaith hwn 4
3. Crynodeb o’r ffactorau perthnasol 6
4. Casglu tystiolaeth 15


## Atodiad


A1. Ymateb i’r cais hwn am dystiolaeth 16

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 19

A3. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth 20

A4. Cwestiynau’r Cais am Dystiolaeth 21

# 1. Trosolwg

Mae teledu wedi bod yn rhan o'n cartrefi ers bron i ganrif, ac mae'n rhan bwysig o'n bywydau bob dydd. Fodd bynnag, mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwylio'r teledu wedi parhau i newid, gyda mwy a mwy o gynnwys fideo yn cael ei wylio dros y rhyngrwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi hwyluso mynediad at amrywiaeth ehangach o gynnwys, ond mae hefyd wedi creu profiad mwy tameidiog. Mae'r newid hwn yn berthnasol i nifer o ddyletswyddau rheoleiddio Ofcom ac yn benodol o ran ein ffocws ar gefnogi argaeledd ac ymgysylltiad â chyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi.[1]

Felly, mae'n amserol ystyried beth fydd dosbarthu ar y rhyngrwyd yn ei olygu yn y tymor hir i'r gwasanaethau a'r llwyfannau teledu[2] penodol y mae pobl yn dibynnu arnynt heddiw, a sut mae rhwydweithiau band eang yn esblygu i gwrdd â'r galw newydd hwn ac i ymateb yn gadarn iddo.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ffactorau a allai effeithio ar y cyd-destun dosbarthu teledu dros y degawd nesaf a thu hwnt. Rydym yn gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid a defnyddwyr ynghylch sut maen nhw'n rhagweld y bydd y farchnad yn datblygu ac unrhyw gwestiynau allweddol sy'n codi i reoleiddwyr a Llywodraeth. Yn benodol:

1. Sut mae gofynion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn esblygu, a sut mae hynny'n amrywio o ran defnyddwyr gwahanol lwyfannau teledu a gwahanol ddemograffeg?
2. Beth mae tueddiadau cynulleidfaoedd yn ei olygu o ran rhagolygon ariannol a chynaladwyedd llwyfannau dosbarthu teledu, a beth yw'r prif bwyntiau wrth ddod i benderfyniadau yn eu cylch dros y deng mlynedd nesaf?
3. Sut mae angen i rwydweithiau band eang a seilwaith ategol esblygu i gefnogi'r gwaith o ddarparu teledu'n gadarn dros y rhyngrwyd yn y dyfodol?
4. Ym mha ffyrdd y gallai gwahanol fathau o wasanaethau rhyngrwyd a daearol 'hybrid' ddarparu manteision i gynulleidfaoedd a pha risgiau a allai godi?
5. O ystyried rhannu seilwaith, beth fyddai'r goblygiadau i sectorau eraill pe bai newid i'r defnydd o deledu daearol digidol (DTT)?
6. Pa gamau o ran cydlynu a chynllunio ar draws y gadwyn gwerth a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau da i gynulleidfaoedd a darparwyr allweddol dros y tymor hir?

[1] Fel y nodwyd yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2023-24, mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar canlyniad, ac un o'r rhain yw 'cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi'.

[2] At ddibenion y ddogfen hon, mae 'llwyfan' yn cyfeirio at ddull dosbarthu penodol, fel teledu daearol digidol (DTT), dosbarthu drwy IP, lloeren neu gebl.

# 2. Cyd-destun y gwaith hwn

## Sicrhau dosbarthiad cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi ar gyfer y tymor hir

Mae gan deledu le pwysig ym mywyd bob dydd y mwyafrif ohonom. Mae rhaglenni teledu yno pan rydyn ni am eu cael, i'n diddanu neu i'n haddysgu, neu dim ond i gadw cwmni i ni; pan rydyn ni am glywed straeon sy'n taro tant â'n bywydau, neu straeon sy'n agor ein meddyliau i safbwyntiau newydd. Yn bwysicaf oll, mae teledu yno pan fydd ei angen arnom – i ddweud wrthym beth sy'n digwydd yn y byd, a pham, neu i ddod â'r genedl at ei gilydd ar adegau o ddathlu neu o bwys cenedlaethol. Ac mae yno i bob un ohonom, gyda [3] gwasanaethau teledu gwylio am ddim ar gael i bawb .[4]

Er bod teledu'r un mor hanfodol ag erioed, mae'r ffordd mae'n cael ei ddarparu wedi newid i bob un ohonom. Yn sgil newid i ddigidol[5], roedd teledu daearol yn gallu cynnig dwsinau o sianeli yn hytrach na phump ac roedd y rhain ar gael i 98.5% o'r boblogaeth heb danysgrifio. Mae miliynau o aelwydydd wedi manteisio ar wasanaethau teledu cebl a lloeren. Yn fwy diweddar, mae gwasanaethau ffrydio wedi hwyluso hyd yn oed mwy o ddewis o ran cynnwys teledu y gellir ei dderbyn dros y rhyngrwyd, gan hebrwng oes newydd i mewn a elwir yn aml yn 'Oes Aur' y teledu.

Mae'r esblygiad parhaus hwn wedi dod â dewis i gynulleidfaoedd, ond mae hefyd yn codi cwestiynau ynghylch y ffordd orau o sicrhau'r canlyniadau da hynny mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Teledu daearol digidol (DTT) yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o dderbyn teledu yn y DU ers newid i'r digidol. Mae cynulleidfaoedd yn adnabod y gwasanaeth hwn fel Freeview, ac mae'n disgrifio cynnwys teledu sy'n cael ei drosglwyddo dros sbectrwm radio drwy erial.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi cwestiynau am deledu daearol digidol, sy'n awgrymu y dylai Llywodraeth y DU a'r diwydiant reoli'r broses o symud cwsmeriaid i ffwrdd o deledu daearol digidol a thuag at ddosbarthu ar y rhyngrwyd. Mae eraill yn dadlau y dylai DTT barhau i fod â rôl i'w chwarae ymhell y tu hwnt i 2034, sef pan fydd y trwyddedau amlblecs[6] presennol yn dod i ben.

Mae newidiadau i'r ffordd mae teledu'n cael ei ddarparu'n berthnasol i nifer o ddyletswyddau statudol Ofcom. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal safonau darlledu i ddiogelu cynulleidfaoedd, a rheoleiddio a thrwyddedu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB)[7], rheoli'r defnydd o sbectrwm

---

[3] Mae teledu gwylio am ddim yn golygu teledu sydd ar gael heb danysgrifiad parhaus. Ers y newid i'r digidol, mae teledu gwylio am ddim wedi cael ei ddarparu yn bennaf drwy ddau lwyfan, sef: (i) llwyfan seiliedig ar deledu daearol digidol, sy'n cael ei farchnata fel Freeview, a (ii) Freesat, sy'n cael ei ddarparu drwy loeren. Yn fwy diweddar, mae gwylio am ddim yn cael ei ddarparu fwyfwy dros fand eang (sydd, ynddo'i hun, angen tanysgrifiad).

[4] Fel y gwnaethom nodi yn y datganiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn 2021, ystyr cyffredinolrwydd yw gallu pobl o bob cefndir i gael gafael ar gynnwys sy'n werthfawr iddynt, ac sy'n eu cysylltu ag eraill ledled y DU. Mae cyffredinolrwydd nid yn unig yn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad yn rhwydd at ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddibynadwy, ond hefyd at amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol a phrofiadau diwylliannol o fywyd yn y DU.

[5] Newid i ddigidol oedd y broses o newid darlledu yn y DU o analog i ddigidol, Fe ddigwyddodd fesul rhanbarth rhwng 2008 a 2012.

[6] Mae trwyddedau amlblecs DTT yn rhoi'r hawl i ddarlledwyr ddefnyddio rhai amleddau radio (sbectrwm) penodol i drawsyrru gwasanaethau teledu ledled y DU mewn fformat digidol y gall pawb ei dderbyn dros eu herialau gartref. Mae'r rhestr o drwyddedeion i'w gweld ar ein gwefan, sef: Trwyddedeion amlblecs - Ofcom.

[7] Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r BBC, gwasanaethau Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C.

radio, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl, a hyrwyddo argaeledd rhwydweithiau band eang cadarn o ansawdd uchel.

# Cais Llywodraeth y DU i Ofcom

Yn ei Bapur Gwyn, 'Up next - the government's vision for the broadcasting sector', nododd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) y byddai'n gofyn i Ofcom gynnal adolygiad cynnar o newidiadau yn y farchnad a allai effeithio ar ddyfodol dosbarthu cynnwys ar deledu daearol digidol a llwyfannau dosbarthu eraill. Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon raglen waith newydd Llywodraeth y DU oedd yn ymwneud â dyfodol dosbarthu teledu, gan gynnwys prosiect ymchwil chwe mis a fydd yn edrych ar newidiadau mewn arferion a thechnolegau gwylio a fydd yn effeithio ar sut mae rhaglenni teledu yn cael eu dwyn i'n sgriniau.[8]

Fel y nodwyd yng nghyhoeddiad Llywodraeth y DU, bydd y 'cais am dystiolaeth' hwn yn caniatáu i randdeiliaid rannu eu safbwyntiau a'u tystiolaeth am ddyfodol dosbarthu teledu er mwyn cyfrannu at ein hadolygiad cynnar o newidiadau yn y farchnad ar gyfer y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys y rôl hirdymor y gallai DTT ei chwarae o ran darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar ôl 2034 pan fydd y trwyddedau amlblecs cenedlaethol presennol yn dod i ben.

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd rhanddeiliaid a gwylwyr i rannu tystiolaeth ynglŷn â'r ffactorau allweddol a fydd yn effeithio ar ganlyniadau cynulleidfaoedd a'r farchnad hyd at 2034 a thu hwnt. I ategu hyn, rydym yn nodi'n fyr yr hyn rydyn ni'n eu hystyried yn ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar y cyd-destun dosbarthu teledu heddiw.

[8] Araith Lucy Frazer i'r Gymdeithas Deledu Frenhinol - GOV.UK (www.gov.uk)

# 3. Crynodeb o'r ffactorau perthnasol

## 1. Wrth i arferion newid, mae angen i ni sicrhau bod gan gynulleidfaoedd fynediad at gyfryngau maen nhw'n ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi yn y tymor hir

### Sut mae arferion cynulleidfaoedd yn newid

Er bod ymgysylltiad eang â chynnwys teledu yn parhau i ffynnu yn y DU, mae'r farchnad yn edrych yn wahanol iawn[9] i fel yr oedd pan ddigwyddodd y newid i ddigidol dros 10 mlynedd yn ôl:

- Rydym yn treulio mwy o amser yn gwylio cynnwys ffurf-fer ar wasanaethau ar-lein fel TikTok a YouTube. Rydym hefyd yn treulio llai o amser yn gwylio cynnwys 'ffurf hir'.
- Rydym yn gwylio mwy o gynnwys ar-alw, pan fydd yn gyfleus i ni, yn hytrach na phryd mae wedi'i amserlennu. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni fideo ar-alw (VOD) gan ddarparwyr traddodiadol drwy apiau darlledu am ddim fel BBC iPlayer, yn ogystal â gwasanaethau tanysgrifio newydd neu wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion nad ydynt yn cael eu darlledu, fel Netflix neu Disney+.
- Er gwaethaf yr opsiynau newydd hyn, mae'r mwyafrif ohonom hefyd yn parhau i wylio cynnwys 'llinol'[10] a amserlennir, o leiaf rhywfaint o'r amser. Mae hyn naill ai oherwydd bod y rhaglen yn ddigwyddiad byw, oherwydd ein bod yn awyddus i wylio ar yr un pryd ag eraill, neu oherwydd mai dyma rydyn ni wedi arfer ag ef. Mae hyd yn oed y math hwn o wylio yn newid wrth i ni fanteisio i'r eithaf ar swyddogaethau newydd fel 'dechrau o'r dechrau' neu 'saib' ar deledu llinol, wedi'i alluogi naill ai drwy ddarpariaeth rhyngrwyd neu drwy offer recordio fideo personol (PVR).
- Mae rhai pobl yn dal i wylio rhaglenni a amserlennir yn unig, sef yr adeg y maen nhw'n cael eu darlledu (gweler Ffigur 1 isod). Mae'r bobl hyn yn dibynnu ar eu herial daearol pwrpasol, gwasanaeth cebl, neu ddysgl lloeren ac efallai nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd yn eu cartrefi.
- Hefyd, mae nifer gynyddol o bobl sydd byth yn gwylio teledu llinol o gwbl, neu sydd ond yn gwylio cynnwys llinol neu fyw dros y rhyngrwyd (e.e. drwy apiau darlledwyr neu sianeli [11] FAST). Gall hyn fod oherwydd nad oes ganddynt yr offer i dderbyn gwasanaethau teledu wedi'u darlledu, neu oherwydd bod yn well ganddynt wylio'r teledu fel hyn.


---

[9] Fel y nodir yn ein gwaith yng nghyswllt Adroddiadau Cyfryngau'r Genedl a Sgrin Fach:Trafodaeth Fawr:
Mae cynnwys [10] 'llinol' yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn unol ag amserlen. Gallwn ei wylio naill ai'n fyw (ar yr adeg y mae'n digwydd) neu gallwn ei ohirio drwy osod saib ar deledu byw neu drwy ddefnyddio dyfais recordio. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau ar-alw/ffrydio.
Sianeli llinol y mae gwylwyr yn eu defnyddio i wylio sioeau teledu, ffilmiau a chynnwys arall heb dalu ffi tanysgrifio yw sianeli [11]Teledu Am Ddim a Gefnogir gan Hysbysebion (FAST). Mae'r sianeli hyn yn cynhyrchu refeniw drwy hysbysebu.

## Beth mae hyn yn ei olygu o ran dosbarthu teledu

Mae’r newidiadau hyn yn arferion cynulleidfaoedd yn codi cwestiynau mawr ynghylch y cyd-destun teledu sydd wedi gwasanaethu cynulleidfaoedd am ddegawdau. Yn y cyd-destun hwn sy’n newid, rhaid i ni sicrhau bod ein holl gynulleidfaoedd yn parhau i allu cael mynediad at y cyfryngau maen nhw’n ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt cynulleidfaoedd hŷn, y rheini sydd ag anableddau, y rheini sydd ar incwm is, ac aelwydydd gwledig, llawer ohonynt yn dibynnu ar deledu daearol digidol i gael gwasanaethau teledu.

**Ffigur 1: Proffil demograffig o aelwydydd sy’n derbyn teledu daearol digidol (DTT) yn unig**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB, Ch1 2023.*

Fel mae pethau ar hyn o bryd, bydd miliynau o aelwydydd yn defnyddio DTT ymhell i’r 2030au.[12] Bydd llawer o’r rhain yn hybrid, hynny yw, byddant yn cael cymysgedd o wasanaethau gan DTT a gwasanaethau ar y rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae’n debyg na fyddai rhai o’r rhain, heb ymyrraeth, yn dewis mabwysiadu, neu’n gallu mabwysiadu, gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd.

> Cais am dystiolaeth: Sut mae gofynion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn esblygu, a sut mae hynny’n amrywio o ran defnyddwyr gwahanol lwyfannau teledu a gwahanol ddemograffeg?

# 2. Mae cyfranogwyr yn y diwydiant yn awyddus i ymateb i'r newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd

## Sut mae cyfranogwyr yn y diwydiant yn ymateb i newid

Mae’r toreth o gynnwys sydd ar gael ynghyd â'r nifer helaeth o ffyrdd o gael mynediad ato wedi newid ymddygiad cynulleidfaoedd. Mae cyfranogwyr yn y diwydiant ar draws y gadwyn gwerth, fel llwyfannau teledu a darlledwyr, yn ymateb i hyn.

[12] Yn ôl rhagamcanion 3Reasons, bydd 10.15 miliwn o gartrefi yn defnyddio teledu daearol digidol ar eu prif set yn 2032.

Mae darlledwyr yn awyddus i fodloni disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd, gan ddarparu eu cynnwys mewn ffyrdd newydd ac amrywiol a buddsoddi mewn darparu cynnwys ar y rhyngrwyd.[13]. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y penderfyniadau buddsoddi y byddant yn eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.


Er enghraifft, mae hysbysebwyr yn ceisio gosod eu hysbysebion lle maen nhw'n gallu targedu cynulleidfaoedd uchel eu gwerth ac yn prynu mwy a mwy o le i hysbysebu ar-lein ac ar lwyfannau fideo ar-alw. O ganlyniad, mae proffidioldeb gwahanol lwyfannau i ddarlledwyr yn newid. Gallai hyn ddylanwadu ar eu parodrwydd i fuddsoddi mewn dulliau cyflwyno penodol.

Mae'r newid yn ymddygiad cynulleidfaoedd yn aml yn arwain darlledwyr i ddefnyddio nifer o ddulliau dosbarthu i ddarparu eu cynnwys. Mae costau ynghlwm wrth hyn, a dros amser mae'n bosibl y bydd darparwyr yn penderfynu nad yw rhai llwyfannau'n fasnachol hyfyw iddynt mwyach a byddant yn tynnu eu sianeli neu eu cynnwys oddi ar y llwyfannau hynny.

Er enghraifft, mae rhai darlledwyr wedi dweud wrthym y gall fod pwynt tyngedfennol pan mae costau rhedeg sianel DTT yn drech na'r manteision i'r darlledwr. Petai nifer fawr o sianeli'n gwneud yr un penderfyniad am unrhyw lwyfan penodol, byddai hynny'n codi cwestiynau am ei gynaliadwyedd yn y tymor hir.

Nid yw'r penderfyniadau hyn yn syml i ddarlledwyr. Mae unrhyw newid mewn dulliau dosbarthu yn gofyn am gynllunio gofalus, buddsoddiad a thrafodaethau masnachol newydd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd darlledwyr yn symud i ddosbarthu ar y rhyngrwyd, lle mae nifer y cyfranogwyr sy'n ymwneud â dosbarthu yn uwch nag ar gyfer darlledu ar DTT, cebl neu loeren – gweler Ffigur 2 isod.

**Ffigur 2 – Cadwyn gwerth wedi'i symleiddio ar gyfer darparu cynnwys teledu i gynulleidfaoedd ar DTT o'i gymharu â rhwydweithiau IP**




## Beth allai hyn ei olygu o ran iechyd llwyfannau gwylio am ddim

Er mwyn cystadlu â'r cynnwys a'r swyddogaethau sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd, mae gweithredwyr llwyfannau gwylio am ddim a theledu-drwy-dalu'n ceisio gwella eu gwasanaethau. Bydd ganddynt

[13] Er enghraifft, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyhoeddi gwasanaeth teledu cydweithredol newydd yn ddiweddar i ddarparu teledu byw dros y rhyngrwyd: Freely press release, Everyone TV.

benderfyniadau allweddol i'w gwneud dros y degawd nesaf ynghylch sut i fuddsoddi mewn seilwaith a phrofiad y defnyddiwr.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y rhagolygon ar gyfer llwyfannau teledu sydd am ddim wrth eu defnyddio. Mae hyn oherwydd eu cyrhaeddiad eang ac oherwydd bod pobl hŷn, a'r rheini sydd ag anableddau neu sydd ar incwm is yn dibynnu ar y llwyfannau hyn. Gyda'i gilydd, mae ôl troed DTT a Freesat[14] yn golygu y gall bron pawb yn y DU wylio teledu am ddim ar hyn o bryd os dymunant. Mae'r model gweithredu ar gyfer y llwyfannau hyn yn seiliedig ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[15], o ran y manteision sy'n dod gyda'u trwyddedau (fel mynediad wedi'i warantu at sbectrwm radio) ac fel gweithredwyr yr amlblecsau sy'n cludo grwpiau o sianeli.

Er bod unrhyw newid sylweddol mewn dosbarthu teledu gwylio am ddim yn annhebygol o ddigwydd yn y tymor agos, bydd penderfyniadau buddsoddi sy'n cael eu gwneud nawr yn dylanwadu ar hyfywedd y llwyfannau hyn yn y tymor hir. Bydd ein hadolygiad yn edrych ar y rhagolygon ar gyfer llwyfannau teledu gwylio am ddim presennol o ran sut mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio a'r partneriaethau masnachol sy'n cefnogi eu modelau gweithredu.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar iechyd a rhagolygon ariannol y llwyfannau gwylio am ddim hyn fel ffordd o ddarparu teledu i gynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau ynghylch a fyddai symud teledu gwylio am ddim i ddosbarthu ar y rhyngrwyd mewn ffordd reoledig drwy bwysau masnachol neu ddewisiadau polisi yn debygol neu'n ddymunol a'r hyn y byddai ei angen gan y diwydiant, Llywodraeth y DU a chymorth rheoleiddio i gyflawni hyn.

Rydym yn awyddus i glywed gan ddarparwyr cynnwys, gwneuthurwyr dyfeisiau, a gweithredwyr llwyfannau teledu a rhyngrwyd am y penderfyniadau buddsoddi y mae angen iddynt eu gwneud, a pha sicrwydd y gallai fod ei angen arnynt gan ei gilydd, gan Lywodraeth y DU, neu gan reoleiddwyr er mwyn gwneud y penderfyniadau hynny mewn ffordd amserol.

> Cais am dystiolaeth: Beth mae tueddiadau cynulleidfaoedd yn ei olygu o ran rhagolygon ariannol a chynaladwyedd llwyfannau dosbarthu teledu, a beth yw'r prif bwyntiau penderfynu yn eu cylch dros y deng mlynedd nesaf?

# 3. Mae'r nifer sy'n defnyddio band eang yn rhwystr sylweddol ar hyn o bryd i ddibyniaeth eang ar ddarpariaeth dros y rhyngrwyd

## Darpariaeth a defnydd

Wrth i fwy o gynulleidfaoedd ddewis gwylio cynnwys ar-lein, ac wrth i ddarparwyr cynnwys geisio eu cyrraedd dros lwyfannau rhyngrwyd, mae argaeledd a'r defnydd o wasanaethau rhyngrwyd yn dod yn bwysicach o ran dosbarthu teledu. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion cyffredinolrwydd, fel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae ystyried y rhyngrwyd fel rhan fwy o'r ateb i gynulleidfaoedd yn codi cwestiynau ynghylch pa mor gyffredinol y

[14] Mae darpariaeth Freesat yn 98% ac mae darpariaeth teledu daearol digidol yn 99% fesul amlblecs darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (sy'n cyfateb i 98.5% ar gyfer y tri amlblecs darlledwr gwasanaeth cyhoeddus), Cysylltu'r Gwledydd 2017. Gan nad oes cydberthynas rhwng ôl troed darpariaeth Freesat ac ôl troed darpariaeth DTT, mae'r cyrhaeddiad cyfun yn debygol o fod dros 99%.

[15] Mae'r BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 yn berchen ar Everyone TV ac yn ei gefnogi. Dyma'r gwasanaeth sy'n rhedeg Freeview (DTT gwylio am ddim) a Freesat (lloeren gwylio am ddim).

gall mynediad at fand eang a'r defnydd ohono fod, yn enwedig yng nghyd-destun unrhyw senario yn y dyfodol lle mae DTT a/neu Freesat yn cael eu lleihau'n sylweddol neu'n llwyr.

Fel y mae ar hyn o bryd, mae 97% o gartrefi yn gallu cael band eang cyflym iawn yn y DU[16], ac mae 99% yn gallu cael gwasanaeth sy'n bodloni'r manylebau a bennwyd gan y Senedd y DU ar gyfer 'Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol' (USO) band eang, gan gynnwys cyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e. Mae hyn yn gadael 428,000 heb fynediad at fand eang digonol[17] ond mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei huchelgais i godi band eang gigabit i dros 99% erbyn 2030.[18]

Mae darpariaeth band eang wedi bod yn cynyddu'n raddol. Mae ein dull rheoleiddio wedi sbarduno buddsoddiad a thwf mewn seilwaith ffeibr, sydd yn ei dro yn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at ryngrwyd fforddiadwy ac uchel ei gyflymder sy'n hwyluso twf ar draws yr economi. Mae gan dros hanner o safleoedd yn y DU fynediad at ffeibr llawn erbyn hyn. Mae hyn, ynghyd â chymorth cynlluniau a ariennir yn gyhoeddus, cynlluniau Llywodraethau, a'r Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol yn golygu y bydd darpariaeth yn debygol o fod yn llai o rwystr dros y degawd nesaf.

Fodd bynnag, mae carfan lawer mwy o bobl sy'n dewis peidio â defnyddio band eang o gwbl.[19] Er bod aelwyd yn dechnegol yn gallu cael cynnwys llinol dros y rhyngrwyd, efallai nad yw'n talu am gysylltiad, neu efallai ei bod yn cael pecyn sylfaenol iawn (heb ddigon o ddata neu gyflymder i gefnogi gwylio teledu yn ystod oriau brig mewn modd dibynadwy). Mae hyn hefyd yn golygu y byddai llawer o aelwydydd yn wynebu cost uwch pe bai'n rhaid iddynt ddefnyddio band eang i gael eu cynnwys teledu.[20]

Mae sawl rheswm pam na fyddai rhywun efallai'n dewis neu'n gallu defnyddio cysylltiad band eang, gan gynnwys cost neu, yn syml, oherwydd nad oes angen gwasanaeth cyflymder uchel arnynt. Er mwyn i gynnwys llinol gael ei ddarparu dros y rhyngrwyd yn unig, mae'r bwlch hwn yn y nifer sy'n ei defnyddio yn rhwystr sylweddol a bydd angen i'r rheini sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth gael y seilwaith, y sgiliau a'r modd i wneud hynny.

## Cadernid o ran darparu'r rhyngrwyd

Nid argaeledd a mabwysiadu gwasanaethau rhyngrwyd yw'r unig rwystrau i ddarparu teledu dros y rhyngrwyd mewn modd dibynadwy. Bydd y galw am gapasiti rhwydwaith band eang yn gyffredinol ac ar adegau prysur yn cynyddu. Mae hyn eisoes yn digwydd - mae'r mwyafrif o gartrefi sydd â theledu[21] yn gartrefi cynnwys 'hybrid', hynny yw, maen nhw'n gwylio cymysgedd o gynnwys llinol a chynnwys ar-alw dros gysylltiadau rhyngrwyd, ar yr un pryd â defnyddio rhwydweithiau darlledu penodol rhywfaint o'r amser.

Fe wnaethom edrych ar yr adegau prysuraf ar hyn o bryd o ran traffig a'r effaith ar rwydweithiau band eang yn ein hymgynghoriad Niwtraliaeth y We. Mae digwyddiadau poblogaidd ar y teledu a lawrlwytho gemau eisoes yn ysgogi cyfnodau prysur o ran traffig. Hyd yma, mae cyfuniad o ffactorau

[16] Mae band eang cyflym iawn yn cynnig cyflymder o 30Mbit/e neu fwy.
[17] Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Haf 2023 - Ofcom
[18] Levelling Up the United Kingdom White Paper – GOV.UK (www.gov.uk) (t.183). Mae hefyd rhaglenni band eang sydd â'r nod o wella cysylltedd yn benodol yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, megis rhaglen Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru a Rhaglen R100 Llywodraeth Yr Alban.
[19] Nid oes gan 7% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac nid oes gan 14% o gartrefi gysylltiad sefydlog â'r rhyngrwyd. Traciwr Technegol 2023 ac Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2023
[20] Yn adran 5 y ddogfen hon, rydym yn nodi sut gallai aelwydydd elwa o amrywiaeth o wasanaethau swyddogaeth yn ogystal â theledu wrth ddefnyddio gwasanaeth band eang.
[21] Mae 65% o aelwydydd sy'n gwylio set deledu'n defnyddio rhyw ddull i wylio teledu dros y rhyngrwyd, Traciwr Technoleg 2023

fel buddsoddi gan rwydweithiau band eang a darparwyr cynnwys, dulliau mwy effeithlon o ddarparu ar gyfer traffig, gan gynnwys defnyddio rhwydweithiau darparu cynnwys (CDN) a thechnolegau cywasgu gan ddarparwyr cynnwys, wedi llwyddo i reoli'r galw hwn ac i roi profiad da i gynulleidfaoedd. Mae'r diwydiant hefyd yn gweithio i ddatblygu dulliau technegol o reoli'r galw o ran capasiti yn effeithlon, fel dosbarthu aml-gastio. O safbwynt cynulleidfaoedd, mae'n bwysig bod hyn yn parhau i gael ei reoli'n effeithiol yn y dyfodol heb gyfaddawdu ar gadernid a'u bod yn parhau i gael mynediad at y cynnwys maen nhw eisiau ei wylio.

Mae DTT yn dechnoleg ddibynadwy iawn ar gyfer darparu cynnwys teledu ac mae ganddo gadernid sylweddol o ran colli pŵer a methiannau eraill. Mae'r gadwyn gwerth ar gyfer dosbarthu cynnwys dros y rhyngrwyd yn fwy cymhleth na theledu daearol digidol (gweler ffigur 2, uchod). Mae hyn yn golygu bod yna fwy o bwyntiau lle gallai methiant ddigwydd. Er enghraifft, mae darparu cynnwys yn dibynnu ar y Wi-Fi yng nghartref y defnyddiwr, y gweithredwr telathrebu sy'n darparu'r band eang sy'n ategu hwn, ac amrywiaeth o fathau o seilwaith rhyngrwyd, gan gynnwys gwasanaethau System Enwau Parthau a Rhwydweithiau Darparu Cynnwys (CDN). Mae dewisiadau hefyd i'w gwneud o ran lefel y cadernid y dylid anelu ati ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddosbarthu drwy IP pan mae mwy o gynulleidfaoedd yn dibynnu arno.

Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch sut bydd cynnydd yn y galw yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf yn effeithio ar rwydweithiau band eang a sut gellir rheoli hyn, gan gynnwys rhinweddau a chyfyngiadau perthnasol technolegau sy'n cael eu datblygu a allai helpu i ddiwallu'r galw hwn.

Cais am dystiolaeth: Sut mae angen i rwydweithiau band eang a seilwaith ategol esblygu i gefnogi'r gwaith o ddarparu teledu'n gadarn dros y rhyngrwyd yn y dyfodol?

## 4. Mae darparu dros y rhyngrwyd yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd o ran pa mor rhwydd eu defnyddio yw gwasanaethau teledu

Mae rhyngwynebau mwy cysylltiedig neu ar-lein yn cynnig mwy o ddewis o ran cynnwys gan wasanaethau ar-alw a thanysgrifio, ochr yn ochr â gwasanaethau teledu llinol traddodiadol sydd wedi'u rhestru mewn canllawiau rhaglenni electronig (EPG). Mae'r toreth o gynnwys a darparwyr cynnwys sydd ar gael, ynghyd â lle ar gyfer cynnwys hyrwyddo, argymhellion personol a hysbysebu wedi rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd ond wedi gwneud pethau'n fwy cymhleth o ran profiad y defnyddiwr. Mewn rhai rhyngwynebau, mae'n rhaid clicio sawl gwaith o'r sgrin hafan i ddod o hyd i'r EPG traddodiadol. Mae'r gwaith o ddatblygu rhyngwynebau defnyddwyr i wasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol yn cael ei siapio gan gytundebau masnachol ac mae'n debygol y bydd darparwyr cynnwys yn ffafrio'r rheini y mae ganddynt fwy o reolaeth drostynt.

Mae rhai cynulleidfaoedd wedi dibynnu ar y EPG ers degawdau. Mae gallu defnyddio rhifau sianeli neu saethau neu fotwm canllaw ar declyn rheoli o bell i ddod o hyd i hoff raglen yn brofiad cyfarwydd y gallai fod arnynt eisiau ei weld yn cael ei gadw yn y dyfodol, ni waeth beth yw'r llwyfan. Mae'r cynnydd yn y defnydd o gynnwys llinol ac ar-alw dros y rhyngrwyd yn golygu bod perygl y bydd profiad y defnyddiwr hyd yn oed yn fwy tameidiog. Ar y llaw arall, mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddod o hyd i ddulliau creadigol i sicrhau profiad di-dor i'r defnyddiwr. Gallai hyn gynnwys personoli neu

symleiddio'r broses lywio, sain a lluniau o ansawdd gwell, neu integreiddio opsiynau gwasanaeth mynediad ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau.[22]

> Cais am dystiolaeth: Ym mha ffyrdd y gallai gwahanol fathau o wasanaethau rhyngrwyd a daearol 'hybrid' ddarparu manteision i gynulleidfaoedd a pha risgiau a allai godi?

# 5. Bydd penderfyniadau buddsoddi ynghylch DTT yn effeithio ar sectorau eraill y tu hwnt i deledu

Nid oes yr un o'r rhwydweithiau penodol ar gyfer dosbarthu teledu yn bodoli fel gwasanaethau annibynnol. Mae teledu cebl yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â band eang cebl, ac mae teledu lloeren drwy dalu yn eistedd ochr yn ochr â gwasanaethau Freesat. O ran seilwaith DTT, rydym yn ymwybodol bod y mastiau a'r sbectrwm sy'n ei ddarparu'n cefnogi nifer o wasanaethau cyfathrebu eraill cysylltiedig.  Mae angen ystyried y cysylltiadau hyn wrth feddwl am ddyfodol y seilwaith hwn.

## Radio a ddarlledir

Mae nifer o fastiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer darlledu DTT hefyd yn cael eu defnyddio i ddarlledu signalau radio analog a/neu DAB. Mae'r gyd-ddibyniaeth hon yn golygu pan fydd newidiadau'n digwydd i un llwyfan, mae goblygiadau i'r llall. Er enghraifft, gallai unrhyw ostyngiad yn y galw am fastiau ar ran y sector teledu symud mwy o gostau i ddarparwyr radio.

Cafodd dyfodol cynnwys sain ei adolygu'n ddiweddar yn yr Adolygiad Sain a Radio Digidol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad y dylai Ofcom a'r diwydiant gynllunio ar y sail y bydd angen gwasanaethau radio FM tan o leiaf 2030. Canfu hefyd y byddai'r achos masnachol dros ddarlledwyr radio yn diffodd gwasanaethau radio FM yn cael ei gydbwyso'n ofalus, gydag arbedion cost yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan y buddsoddiad sydd ei angen i wella darpariaeth DAB. Argymhellodd adroddiad DCMS y dylai newid o FM i DAB ac IP fod yn rhan o waith cynllunio hirdymor gan y diwydiant, i'w ailystyried mewn Adolygiad pellach erbyn 2026. Rydym yn croesawu tystiolaeth ynghylch a allai cyd-ddibyniaeth â theledu daearol digidol effeithio ar gynllunio tymor hir y diwydiant, ac os gallai, sut byddai'n effeithio ar hyn.

## Cyfathrebu pellgyrhaeddol

Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio nifer o ddulliau i gyrraedd pobl os bydd digwyddiad trychinebus neu genedlaethol mawr. Mae hyn yn cynnwys cytundeb yn Siarter y BBC sy'n nodi y gall y Llywodraeth ofyn i'r BBC 'ddarlledu neu fel arall ddosbarthu unrhyw gyhoeddiad' mewn argyfwng. Felly, mae cwestiwn yn codi ynghylch yr hyn a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, cadernid mewn perthynas â phŵer a chyrhaeddiad eang llwyfan neu lwyfannau dosbarthu teledu yn y dyfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu hysbysu'n ddigonol.

---

[22] Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddarlledwyr ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfran o'u rhaglenni.    Yn ddiweddar, rydym wedi cynnig rhai newidiadau i'r cod gwasanaethau mynediad teledu: Ymgynghoriad: Sicrhau ansawdd gwasanaethau mynediad teledu ac ar-alw.

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE), cyfathrebiadau symudol a defnyddwyr sbectrwm eraill

Byddem yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid ar y galw am sbectrwm gan DTT neu wasanaethau amgen yn y band UHF yn y tymor hwy (ar ôl 2034) yn y DU, yng ngoleuni'r posibilrwydd o uwchraddio technoleg a'r newid yn amodau'r farchnad.

Yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth y DU, ym mis Tachwedd bydd Ofcom yn cynrychioli'r DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-23) lle bydd y dyraniad sbectrwm sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd i DTT (rhwng 470 a 694 MHz) yn cael ei drafod. Mae nifer o wledydd sydd â diddordeb mewn defnyddio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau eraill, fel band eang symudol, yn mynd ar drywydd y mater hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed os bydd WRC-23 yn cytuno ar ddyraniad gwahanol, bydd gan y DU gryn ryddid o hyd o ran sut rydym yn defnyddio sbectrwm.

Mae'n bosibl y gallai DTT, yn y tymor hwy, ddefnyddio technoleg cywasgu wahanol i'w alluogi i ddefnyddio llai o sbectrwm nag y mae'n ei ddefnyddio heddiw, neu i gau rhai neu'r cyfan o'i amlblecsau i leihau nifer y sianeli sy'n cael eu cynnig. Mae ffonau symudol yn cefnogi signalau symudol sy'n defnyddio'r bandiau sbectrwm hyn fwyfwy gan iddynt gael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r byd. Mewn rhai gwledydd yn Ewrop, mae gweithredwyr symudol wedi cynnig defnyddio'r sbectrwm hwn i ehangu eu cynnig.

Mae'r band sbectrwm a ddefnyddir gan signalau DTT hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE). Mae'r dyraniad hwn yn caniatáu i ddyfeisiau fel microffonau di-wifr ddefnyddio'r un bandiau â theledu, drwy ddefnyddio signalau ar bŵer cymharol isel fel nad ydynt yn achosi ymyriant. Mae'n bwysig bod gan y defnyddwyr sbectrwm hyn ddyraniad rhagweladwy o sbectrwm i gefnogi buddsoddi yn yr offer cywir.

Hyd yn oed wrth ddefnyddio gwahanol fandiau sbectrwm, rydym yn nodi bod mastiau DTT yn cael eu defnyddio gan rai cwmnïau telathrebu fel seilwaith i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu symudol. Mae'r mastiau hefyd yn cefnogi gwasanaethau eraill, gan gynnwys y sbectrwm a ddefnyddir gan rai dyfeisiau cyfleustodau fel mesuryddion clyfar.

## Cysylltedd digidol

Mae'r cyd-destun ar gyfer technoleg a'r nifer sy'n defnyddio cysylltedd yn debygol o newid yn sylweddol dros y 10 i 15 mlynedd nesaf wrth i fwy a mwy o bobl geisio cael gafael ar amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein. O'r herwydd, wrth symud oddi wrth DTT, dim ond y bwlch sy'n weddill o ran cysylltedd na all tueddiadau defnyddwyr neu ymyriadau eraill ei gau y byddai angen rhoi sylw iddo.

Yn achos symudiad wedi'i reoli oddi wrth DTT, mae'n debyg y byddai angen rhywfaint o ymyrraeth i sicrhau bod y bobl hynny sydd mewn sefyllfa fwy bregus yn cael eu cefnogi.  Byddai manteision atodol i'r gefnogaeth hon oherwydd gallai sgiliau digidol gwell a gwell cysylltiad â'r rhyngrwyd yn y cartref helpu i gau bwlch sgiliau digidol ehangach.

> Cais am dystiolaeth: O ystyried rhannu seilwaith, beth fyddai'r goblygiadau i sectorau eraill pe bai newid yn y defnydd o DTT?

# 6. Cydlynu i sicrhau canlyniadau da

Mae nifer fawr o bobl yn gysylltiedig â dosbarthu teledu (gweler Ffigur 2), pob un ohonynt â'u hamcanion a'u cymhellion masnachol eu hunain. Er mwyn sicrhau bod teledu'n cael ei ddosbarthu'n

gyffredinol ac yn gadarn yn y tymor hir, efallai y bydd angen rhywfaint o gydlynu a chynllunio gan y diwydiant neu Lywodraeth y DU.

Felly, rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ystyried ym mha gyd-destunau y gallai cydlynu dros y degawd nesaf fynd i'r afael â thensiynau yn y farchnad a lle gallai ymyrryd helpu i ddatrys y rhain.

> Cais am dystiolaeth: Pa gamau o ran cydlynu a chynllunio ar draws y gadwyn gwerth a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau da i gynulleidfaoedd a darparwyr allweddol dros y tymor hir?

# 4. Casglu tystiolaeth

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gyfle i'r ystod eang o bobl sydd â diddordeb rannu eu gwybodaeth a'u safbwyntiau â ni. Bydd hyn yn cyfrannu at ein ffordd o feddwl wrth i ni gynnal ein hadolygiad.

Rydym am glywed gan amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfaoedd, darparwyr cynnwys, darparwyr rhwydweithiau a seilwaith, gwneuthurwyr dyfeisiau a llwyfannau teledu. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau rhanddeiliaid ar sut y gallai dosbarthu teledu fynd rhagddo dros y 10 i 15 mlynedd nesaf, a'u barn am sut y dylid cydlynu hyn i sicrhau bod dosbarthu teledu a chyfryngau eraill rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi yn mynd rhagddo mewn ffordd gynaliadwy.

## Crynodeb o gwestiynau'r cais am dystiolaeth

1. Sut mae gofynion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn esblygu, a sut mae hynny'n amrywio o ran defnyddwyr gwahanol lwyfannau teledu a gwahanol ddemograffeg?
2. Beth mae tueddiadau cynulleidfaoedd yn ei olygu o ran rhagolygon ariannol a chynaliadwyedd llwyfannau dosbarthu teledu, a beth yw'r prif bwyntiau i ddod i benderfyniad yn eu cylch dros y deng mlynedd nesaf?
3. Sut mae angen i rwydweithiau band eang a seilwaith ategol esblygu i gefnogi'r gwaith o ddarparu teledu'n gadarn dros y rhyngrwyd yn y dyfodol?
4. Ym mha ffyrdd y gallai gwahanol fathau o wasanaethau rhyngrwyd a daearol 'hybrid' ddarparu manteision i gynulleidfaoedd a pha risgiau allai godi?
5. O ystyried rhannu seilwaith, beth fyddai'r goblygiadau i sectorau eraill pe bai newid yn y defnydd o deledu daearol digidol (DTT)?
6. Pa gamau o ran cydlynu a chynllunio ar draws y gadwyn gwerth a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau da i gynulleidfaoedd a darparwyr allweddol dros y tymor hir?

# A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 12 Rhagfyr 2023.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/call-for-evidence-future-of-tv-distribution. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at FutureofTVDistributionCallforEvidence@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion y cais am dystiolaeth hwn yn unig mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 5pm ar 12 Rhagfyr 2023.

A1.4 Fel arall, gallwch bostio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl y cais am dystiolaeth arnynt:

Dyfodol Dosbarthu Teledu
d/o Tîm Strategaeth a Pholisi
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod ddim hwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi ymateb; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen cais am dystiolaeth. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4.

A1.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y cais am dystiolaeth hwn, cysylltwch â FutureofTVDistributionCallforEvidence@ofcom.org.uk

# Cyfrinachedd

A1.11 Mae ceisiadau am dystiolaeth yn fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i gyfnod y cais am dystiolaeth ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

# Y camau nesaf

A1.16 I gefnogi prosiect ymchwil y Llywodraeth ar y pynciau hyn, byddwn yn darparu ein hadolygiad cynnar o newidiadau yn y farchnad yng ngwanwyn 2024.

A1.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

# Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A1.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth

## Manylion sylfaenol

Teitl y cais am dystiolaeth:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac y gellir eich adnabod ohono)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i gais am dystiolaeth y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben. Os nad yw eich ymateb yn un cyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd y cais am dystiolaeth wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A4. Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth

1. Sut mae gofynion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn esblygu, a sut mae hynny'n amrywio o ran defnyddwyr gwahanol lwyfannau teledu a gwahanol ddemograffeg?
2. Beth mae tueddiadau cynulleidfaoedd yn ei olygu o ran rhagolygon ariannol a chynaliadwyedd llwyfannau dosbarthu teledu, a beth yw'r prif bwyntiau i ddod i benderfyniad yn eu cylch dros y deng mlynedd nesaf?
3. Sut mae angen i rwydweithiau band eang a seilwaith ategol esblygu i gefnogi'r gwaith o ddarparu teledu'n gadarn dros y rhyngrwyd yn y dyfodol?
4. Ym mha ffyrdd y gallai gwahanol fathau o wasanaethau rhyngrwyd a daearol 'hybrid' ddarparu manteision i gynulleidfaoedd a pha risgiau allai godi?
5. O ystyried rhannu seilwaith, beth fyddai'r goblygiadau i sectorau eraill pe bai newid yn y defnydd o deledu daearol digidol (DTT)?
6. Pa gamau o ran cydlynu a chynllunio ar draws y gadwyn gwerth allai fod yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau da i gynulleidfaoedd a darparwyr allweddol dros y tymor hir?